

ARCHIFAU MORGANNWG

~COFNODION LLYSOEDD ~

Mae gan yr Archifau Morgannwg gofnodion llys y Llysoedd Chwarter a llys y Sesiwn Fach, lefelau isaf y system gyfreithiol a oedd yn ymestyn hyd at yr Uchel Lys a Tŷ'r Arglwyddi. Nid oedd llysoedd lleol yn ddi-nod fodd bynnag - roeddynt yn gallu rhoi dedfryd a oedd yn amrywio o ddirwy fechan i drawsgludo neu farwolaeth.

Llysoedd Chwarter

Gellir olrhain gwreiddiau'r Llysoedd Ynadon heddiw i'r Llysoedd Chwarter ac i'r Ynadon Heddwch (barnwyr lleyg) oedd wedi'u penodi gan y Goron i weithredu ym mhob sir. Roedd Llysoedd Chwarter Morgannwg yn cwmpasu sir hanesyddol Morgannwg bron i gyd, ac yn ymdrin â materion barnwrol a gweinyddol. Felly, yn ogystal ag achosion troseddol, roedd y llys yn gyfrifol (er enghraifft) am gynnal a chadw pontydd a charchar y sir, darparu gofal i wallgofiaid, cofrestru etholwyr a'r heddlu sirol, ac yn gweithredu fel llys apêl ar gyfer Cyfraith y Tlodion a oedd yn cael ei gweinyddu gan y plwyfi. Roedd y llys yn gweithredu fel llywodraeth y sir am dros dair canrif cyn dyfodiad y cyngor sir ac unrhyw awdurdod lleol arall.

Llys y Sesiwn Fach

Dim ond pedair gwaith y flwyddyn oedd y Llysoedd Chwarter yn cyfarfod, ond dros y canrifoedd roeddynt wedi gorfod ymdrin â llwyth cynyddol o fusnes cyfreithiol a gweinyddol. Wrth i'r ddeunawfed ganrif fynd yn ei blaen roedd llwyth gwaith yr Ynadon wedi tyfu i'r fath raddau fel y bu'n rhaid iddynt gynnal sesiynau ychwanegol, gan gyfarfod mewn niferoedd bach yn eu hardal leol eu hunain. Gydag amser cafodd y cyfarfodydd hyn eu galw'n Sesiwn Fach.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygodd system y Sesiwn Fach i fod yn fwy ffurfiol, gydag ynadon yn cynnal eu sesiynau eu hunain yn fwy rheolaidd. Cyflwynwyd deddfau a oedd yn gofyn am gadw cofnodion ffurfiol o'r achosion.

Cynhaliwyd y llys gerbron dau neu fwy o ynadon ond heb reithgor ac roeddynt yn ymdrin â mân achosion fel meddwdod, herwela a chrwydraeth. Byddai achosion mwy difrifol yn cael eu cyfeirio at un o'r llysoedd uwch, naill ai'r Llysoedd Chwarter neu Lys y Sesiwn Fawr (a gafodd eu disodli gan Frawdlysoedd ym 1830).

Ym 1889 crëwyd Cyngor Sir Morgannwg, ac fe gymerodd y cyfan bron iawn o swyddogaethau gweinyddol y Llysoedd Chwarter a'r Sesiwn Fach. O hyn ymlaen roedd swyddogaeth y Llysoedd Chwarter bron yn gyfan gwbl farnwrol. Ym 1971, cafodd Llys y Sesiwn Fach a'r Llysoedd Chwarter eu disodli gan y Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron.

Cofnodion Llysoedd Chwarter

Cofnodion Gweinyddol

Llyfrau cofnodion, 1719-1972

[Q/S/M]

Mae'r rhain yn cofnodi busnes y llys, gan gynnwys penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gwrandawiaidau.

Llyfrau Gorchymyn, 1729-1781

[Q/S/B]

Mae'r gorchymynion a restrir yn y llyfrau yn ymwneud â'r ffordd y dylai busnes y llys gael ei gynnal, gan gynnwys gweinyddu mechnïaeth, systemau i ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r llys a thalu swyddogion y llys.

Llyfrau Cofnodion Pwyllgorau, 1874-1974

[Q/S]

Yn ogystal â llyfrau cofnodion y Llysoedd Chwarter, mae yna lyfrau cofnodion ar gyfer gwahanol bwyllgorau hefyd, er enghraifft, y pwyllgor trwyddedu, y pwyllgor prawf a phwyllgor ynadon y sir.

Cofnodion Troseddau

Papurau llysoedd (Rholiau Llysoedd Chwarter), 1727-1971

[Q/S/R]

Dogfennau yw'r rhai y byddai eu hangen ar y Clerc Heddwch yn ystod pob sesiwn. Ar ddiwedd y sesiwn byddai'r clerch yn mynd a'r holl bapurau a'r memrynau oedd wedi caglu ac yn eu pwytho ar ddarn o liny. Gallai dogfennau gynnwys:

- Rhestr rheithwyr
- Rhestr o swyddogion yn y llys
- Gwritiau gwysion
- Adroddiadau'r crwner.

Mae'r rholiau wedi'u dadrolio, eu gwarchod a'u rhwymo'n gyfrolau hyd at 1804 a rhwng 1889 -1965. Y tu allan i'r dyddiadau hyn mae'r rholiau yn eu cyflwr gwreiddiol ac yn anodd eu defnyddio. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio'r rholiau hyn sydd heb eu dadrolio gan yr Archifydd ar Ddyletswydd.

Ditiadau a Chyflwyniadau, 1730-1793

[Q/S/I]

Ditiadau oedd y cyhuddiad ysgrifenedig ffurfiol yn erbyn unigolyn, pentrefan neu dref, fel arfer am drosedd fach neu 'niwsans' megis ymosodiad, herwela neu ladrad. Mae cyfrolau'n cynnwys trawsgrifiadau o'r ditiadau yr ymdriniwyd â hwy yn ystod pob sesiwn, ac yn rhoi manylion y drosedd ac enwau'r 'erlynydd' a'r cyhuddedig.

Calendr Carcharorion, 1850-1971

[Q/S/C]

Rhestr o unigolion wedi'u ditio gafodd eu dal yng Ngharchardai'r Sir a Thai Cywiro (yng Nghaerdydd ac Abertawe) tra'n disgwyl mynd o flaen eu gwell yn y Llysoedd Chwarter a'r Brawdlysoedd yw'r Calendr Carcharorion. Roeddynt yn cael eu casglu gan Lywodraethwr neu geidwad y sefydliad a'u hanfon ymlaen i'r Llys i'w defnyddio yn ystod yr achosion. Mae'r rhestr i'n cynnwys enw'r sawl a gyhuddwyd a'i oed a'i alwedigaeth yn ogystal â rheithfarn a dedfryd y Llys.

Collfarnau Ieuencid, 1847-1879

[Q/S/JC]

O 1847 cafodd troseddwr ifanc eu trin yn wahanol i oedolion oedd yn droseddwr. Gallai pobl ifanc 14 oed gael eu cyhuddo gan ddau ynad heddwch, er mwyn osgoi carcharu ieuencid am gyfnodau hir o amser. Roedd ffurflenni ar gyfer collfarnau ieuencid yn cael eu hanfon at y Clerc Heddwch ac yn cynnwys

- Dyddiad y gollfarn
- Enw ac oed yr unigolyn (unigolion) a gafwyd yn euog
- Manylion y drosedd
- Cosb
- Enw'r ynadon oedd yn llywyddu

Cofnodion Eraill y Llysoedd Chwarter

Asesiadau Treth Tir, 1766-1831

[Q/D/LTA]

Er nad oedd y Llysoedd Chwarter yn gysylltiedig ag asesu neu gasglu Treth Tir, (treth yn ôl gwerth y tir y mae'n berchen arno) rhoddwyd copïau dyblyg o'r asesiadau i'r Clerc Heddwch er mwyn darparu rhestr o'r rhai oedd â hawl i bleidleisio.

Llyfrau trethi tua 1842-1881

[Q/F/R]

Math o dreth eiddo oedd y trethi yr oedd llawer o sefydliadau megis y plwyf, undeb cyfraith y tlodion, Bwrdd yr Ysgol a'r Llysoedd Chwarter yn eu pennu o dan enw'r 'Sir' i ariannu eu gwaith. Maent yn rhoi enw perchnogion a meddianwyr pob darn o dir sydd wedi'i asesu.

Cynlluniau a Adnewwyd, 1792-1970

[Q/D/P]

Roedd cynlluniau ar gyfer mentrau cyhoeddus megis camlesi, dociau, tramffyrdd, rheilffyrdd a gweithiau nwy yn cael eu hadneuo gyda'r Clerc Heddwch. Maent yn dyddio o 1792 ac yn aml dyma'r mapiau graddfa fawr cynharaf o'r ardal y maent yn ei chwmpasu. Ynghyd â'r cynlluniau mae yna restri o dirfeddianwyr a meddianwyr y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt.

Llys y Sesiwn Fach

Rhanbarthau Llys y Sesiwn Fach

Roedd rhanbarthau Llys y Sesiwn Fach yn seiliedig ar grwpiau o blwyfi oedd yn cael eu galw'n Gantrefi. Roedd y llys yn eistedd yn nifer o'r trefi mwy yn y rhanbarth:

Rhanbarth	Cyfeirnod	Eisteddiad yn
Caerffili Uchaf	PSCAEHI	Pontlotyn, Gelli-gaer, Merthyr
Caerffili Isaf	PSCAELO	Caerffili, Bargoed
Y Bont-faen	PSCOW	Y Bont-faen
Dinas Powys	PSD	Y Barri, Penarth
Cibwr	PSK	Yr Eglwys Newydd
Meisgyn Uchaf	PSMHI	Aberdâr, Aberpennar
Meisgyn Isaf	PSMLO	Llantrisant, Pontypridd, Porth, Ystrad
Y Castellnewydd ac Ogwr	PSNEW	Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg

Yn aml iawn roedd Ystafell y Llys yng ngorsaf yr heddlu ac felly roedd y llysoedd yn cael eu galw'n llysoedd yr heddlu hefyd. Yn ogystal ag ymdrin â mân achosion a chyflwyno achosion i lysoedd uwch roedd y llysoedd hyn hefyd:

- Yn ymdrin â thrwyddedu tafarnau
- Yn cofnodi'r cam terfynol yn y broses o fabwysiadu plant

Cofnodion y Sesiwn Fach

	Llyfrau Cofnodion	Cofrestri Llysoedd	Cofrestri Llys leuencid
Caerffili Uchaf	1840-1972	1919-1960	1933-1958
Caerffili Isaf	1874-1947	1892-1981	1933-1968
Y Bont-faen	1880-1889	1885-1970	1933-1964
Dinas Powys	1920-1922	1889-1970	1933-1970
Cibwr	1908-1973	1915-1974	1933-1972
Meisgyn Uchaf	1897-1961	1853-1964	1933-1959
Meisgyn Isaf	1925-1953	1902-1977	1933-1984
Y Castellnewydd ac Ogwr	1836-1859	1832-1983	1933-1983

Cofnodion Troseddau

Llyfrau Cofnodion, 1840-1973, mae'r rhain yn cofnodi'r busnes yr ymdriniwyd ag ef yn llys y Sesiwn Fach ac yn darparu gwybodaeth fanwl am yr achosion penodol.

Cofrestri Llysoedd, 1832-1981, sy'n darparu rhestr o bobl a ymddangosodd yn y llysoedd.

Cofrestri Llys leuencid, 1919-1984, sy'n rhestru troseddwy'r ifanc a ymddangosodd gerbron yr ynadon.

Cofnodion y Llys Trwyddedu

Cofrestri Trwyddedu, 1872-1974

Cofrestri o glybiau, 1902-1962

Cofnodion Eraill llys y Sesiwn Fach

Cofnodion Mabwysiadu, 1927-1949, roedd y Sesiwn Fach yn gwrando ar gamau terfynol y broses fabwysiadu ac yn eu cofnodi. Mae'r cofnodion hyn yn cynnwys gwybodaeth sensitif am unigolion ac felly mae mynediad iddynt yn gyfyngedig.

Cofnodion Pwyllgorau, 1840-1973, gan gynnwys pwyllgorau trwyddedu a phwyllgorau prawf.

Blwyddlyfrau, 1902-1990, sy'n cynnwys rhestr o Ynadon Heddwch.

Llyfrau cofnodion a chofrestr llysoedd priodasol, 1941-1983, sy'n cyfeirio ar achosion priodasol y gwrandawyd arnynt yn y Sesiwn Fach.

Llysoedd Bwrdeistref

Roedd hawl gan Gaerdydd a Merthyr Tudful, trwy siarter frenhinol, gynnal Llysoedd Chwarter ar gyfer y fwrdeistref ar wahân i rai'r sir. Roedd yr hawl yn cael ei gweithredu o bryd i'w gilydd yn unig tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn anffodus, nid oes unrhyw gofnodion o Lysoedd Chwarter Merthyr Tudful wedi goroesi.

Cofnodion Llysoedd Chwarter Bwrdeistref Caerdydd

QSCBO

Llyfrau gorchmynion, 1730-1772, yn cynnwys gorchmynion y llysoedd.

Llyfrau ymrwymiad, 1776-1809, Bond oedd yr ymrwymadau i ymddangos i roi tystiolaeth ar gyfer erlyn achos.

Llyfrau cyflwyniadau, 1779-1809, Cyflwyniadau oedd y cyhuddiadau a gyflwynwyd gerbron y rheithgor cyn y gallai'r achos gychwyn.

Cofnodion Sesiwn Fach Bwrdeistref

PSCBO, PSMBO

	Llyfrau Cofnodion	Cofrestri Llysoedd	Cofrestri Llys Ieuencid
Bwrdeistref Caerdydd	1846-1904	1846-1979	1919-1962
Bwrdeistref Merthyr Tudful	1908-1920	1895-1964	1933-1964

Llysoedd Ynadon

Ym 1971, cafodd y Llysoedd Chwarter a llys y Sesiwn Fach eu disodli gan y Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron. Mae Cofnodion y Llysoedd Ynadon yn ymddangos fel parhad o gasgliadau llys y Sesiwn Fach.

Mae'r casgliad ar gyfer Bro Morgannwg (PSVG) a Dinas Powys a'r Bont-faen (PSDPC), fodd bynnag yn ymwneud yn unig â'r cyfnod yn dilyn sefydlu'r Llysoedd Ynadon.

	Cofrestri Llys	Cofrestri Llys Ieuencid
Dinas Powys a'r Bont-faen	1970-1974	1970-1973
Bro Morgannwg	1974-1980	1974-1981

Cofnodion mewn ystorfeydd eraill

Cyflwynwyd llys y Sesiwn Fawr, llys uwch na'r Sesiwn Fach, yng Nghymru tua'r un adeg, ond roedd yn ymdrin ag achosion mwy difrifol ac yn cyfateb mewn sawl ffordd i'r Brawdlysoedd yn Lloegr. Ym 1830 daeth Cymru o dan awdurdodaeth y system Frawdlys a diddymwyd llys y Sesiwn Fawr.

Mae cofnodion llys y Sesiwn Fawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ond mae gan Archifau Morgannwg lungopïau o'r 'Llyfrau Du', 1726-1830, sef rhestri o ddiadau.

Mae'r Archifau Cenedlaethol yn cadw cofnodion Brawdlysoedd a llysoedd uwch eraill.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penglais
ABERYSTWYTH
Ceredigion
SY23 3BU
Ffôn: 01970 632800
Gwefan: www.llgc.org.uk

The National Archives
Ruskin Avenue
KEW
Surrey
TW9 4DU
Ffôn: 020 8876 3444
Gwefan: <http://www.nationalarchives.gov.uk/>